Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
7 Tachwedd 2013; 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :
Cynghorwyr Erddyn Davies (Cadeirydd), Eddie Hughes, Emyr Williams, Ifor D. Williams, Sioned Williams, Rhys Pugh, Geraint R. Jones
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL
Dim.

2. YMDDIHEURIADAU
Y Cynghorydd Chris Hughes, Gwyneth Thomas a Dafydd Iwan.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
Cadarnhawyd.

Cynnig: Geraint R. Jones; Eilio: Ifor D. Williams.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES :
Mae Cyngor Gwynedd am baratoi cynlluniau yn amlinellu opsiynau posibl.

4.2 PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN :
North Wales Fencing wedi dechrau'r gwaith. Fodd bynnag, nid oedd gosod gwastraff llechi o gwmpas y fainc newydd yn rhan o'r pris gwreiddiol. Rhaid talu am hyn yn ychwanegol. Cytunwyd gofyn i North Wales Fencing roi pris am wneud y gwaith ychwanegol.

Trafodwyd hefyd gosod y cae sy'n rhan o'r Parc yn dilyn ymholiad. Y Clerc i wneud trefniadau.

4.3 FFOSYDD RHOS-BACH AT CAE HOBSON:
Cyngor Gwynedd wedi ymateb gan restru'r opsiynau posibl. Cytunwyd ymateb i'r Cyngor gan gytuno i'r argymhelliad o leinio'r ffos, gosod llinell wen ac ymylfaen.

4.4 CYFETHOL AELOD:
Gosodwyd hysbysiad ar 4ydd Tachwedd ar yr hysbysfwrdd ym Montnewydd. Mae gan etholwyr tan y 22 Tachwedd i roi gwybod os ydynt am gynnal etholiad. Os na cheir ymateb erbyn y dyddiad hynny, gall y cyngor cymuned fynd ati i hysbysebu am aelod.

4.5 GWEFAN A GRANT LLYWODRAETH CYMRU:
Cytunwyd i roi gwybod i Gist Gwynedd fod y Cyngor Cymuned yn cytuno ar yr opsiwn o gydweithio gyda chynghorau cymuned eraill i sefydlu gwefan.

4.6 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR BWERAU DISGRESIWN I AWDURDODAU LLEOL GYNYDDU'R DRETH GYNGOR:
Cytunwyd ar ymateb i gwestiynau Llywodraeth Cymru. Y Clerc i'w gyrru ymlaen.

5. MATERION ARIANNOL
Cytunwyd i dalu :

Cyflog y Clerc, Awst **Cyflog a chostau clerc Awst, Medi, Hydref 2013**

Awst £208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Medi £208.18 - £41.60 treth incwm= £166.58 + costau swyddfa £45.00

Hydref £208.18 - £41.60 treth incwm=£166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £759.54

Cyfanswm Net £634.74

Costau eraill

Costau teithio clerc i gwrs hyfforddi Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn Nolgellau 9 Hydref 2013 80 milltir x.45c**=£36.00**

Costau postio **£2.10**

Cost cwrs a fynychwyd gan y Clerc - Un Llais Cymru Modiwl 1 – Y Cyngor **£30.00**

Costau teithio'r Cynghorydd Sioned Williams, Pwyllgor Un Llais Cymru ym Mhwllheli, 40milltir x .45c = **£18.00**

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais cynllunio Tyddyn Niwbwrch – dim gwrthwynebiad.

7. GOHEBIAETH

LLYTHYR PWYLLGOR CYMDEITHAS YR IAITH AR GYNLLUN DATBLYGU GWYNEDD/MŐN
Penderfynwyd ymateb i'r cwestiynau yn y llythyr drwy ddweud fod angen am dai ym Montnewydd, ond ar raddfa fach ac nid ar raddfa fawr, ac y byddid yn croesawu ymchwiliad er mwyn mesur yr angen yn lleol

AIL-ETHOL Y CYNGHORYDD MIKE HARRIMAN FEL CYNRYCHIOLYDD UN LLAIS CYMRU I GRŴP CYFEIRIOL BUDD-DDEILIAID BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR
Dim gwrthwynebiad.

BWLETIN RHEOLI ADNODDAU NATURIOL LLYWODRAETH CYMRU HYDREF 2013 (Bil yr Amgylchedd a Strategaeth Newid Hinsawdd)
Derbyn er gwybodaeth

CYMRU'N COFIO 1914-1918 LANSIO FFRAMWAITH COFFÂD Y RHYFEL BYD CYNTAF YNG NGHYMRU
Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Phil Edwards am fanylion o'r ymgyrch i gasglu arian i gael cofeb i filwyr Cymreig yn Fflandrys

ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH ECONOMAIDD GWYNEDD - PEG
Derbyn er gwybodaeth.

AMRYW GEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

Penderfynwyd gohirio trafodaeth ar y rhain tan gyfarfod mis Mawrth.

8. MATERION ERAILL

Bu cwyn fod cwn yn baeddu'r llwybr ger Teras Brymer, ac fe gytunwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt fonitro'r sefyllfa.

9. MATERION EITHRIEDIG

Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 5 Rhagfyr 2013, am 7yh.